Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

**WEDI'I GADARNHAU**

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr** a gynhaliwyd am 9.00am ddydd Gwener 17 Mai 2024, Ystafell 1887, Prifysgol Wrecsam

**Yn bresennol:**
Dr Leigh Griffin
(Cadeirydd) Paul
Barlow
Richard Campbell Yr Athro
Martin Chambers Dr Sarah
Dubberley
Maisie Head
Yr Athro Maria Hinfelaar
Yr Athro Sandra Jowett
Sally Lambah
Diane McCarthy
David Subacchi
Will Naylor
Richard Thomas
Fabrizio Trifiro
Maureen Wain
Liam Wynne

**Swyddogion:**
David Clarke (Clerc i'r Bwrdd)
Yr Athro Richard Day (Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil)
David Elcock (Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol)
Yr Athro Ieuan Ellis (Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol Dros Dro)
Pete Gibbs (Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)
Lynda Powell (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)
Dr Simon Stewart (Deon FSLS)

**Yn mynychu:**
Nina Ruddle (*Pennaeth Polisi Cyhoeddus ac Ymgysylltu) ar gyfer eitem BG23.92*
Joy Morton (*Ysgrifennydd y Brifysgol a Chwnsler Cyffredinol) ar gyfer eitemau BG23.95 a BG23.102*
Dr Ian Barwick *(Pennaeth Busnes a Gwasanaethau OpTIC) ar gyfer eitem BG23.94*
James Dawson (*Cyfarwyddwr SPSA) ar gyfer eitemau BG23.97 a BG23.98*

**Ymddiheuriadau:**
Dr Karen Heald
Claire Homard
Jayne Owen

| | | |
|---|---|---|
| **BG23.84** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | |
| **BG23.85** | **Datganiadau gwrthdaro rhwng buddiannau** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Datganodd Richard Thomas fuddiant mewn perthynas â'r eitem ar Bartneriaethau Academaidd (Cyfeiriad yng nghofnod BG23.99). Dywedodd Richard ei fod ar hyn o bryd yn gwneud<br>gwaith ymgynghori cyflogedig gydag un darpar bartner academaidd a oedd wedi ymgysylltu â'r Brifysgol. Nid oedd trafodaeth na phenderfyniad ar y bartneriaeth yn cael ei wneud yn y cyfarfod hwn; nodwyd nad oedd y bartneriaeth arfaethedig gyda Choleg Busnes Rhydychen wedi symud ymlaen i'r cam diwydrwydd dyladwy eto, a bod yr ymgynghoriaeth gyflogedig i fod i ddod i ben o fewn chwe wythnos. Cytunodd yr aelodau felly i nodi'r gwrthdaro ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R datganiad o wrthdaro rhwng buddiannau | |
| **BG23.86** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2024<br><br>**Adroddwyd:**<br>Ystyriodd y Bwrdd gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol. Mewn perthynas â Phartneriaethau Academaidd (Cofnod BG23.67) adroddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd<br>(AQSC) bod y Weithdrefn Partneriaethau Academaidd wedi cael ei chymeradwyo yn amodol ar rai esboniadau ynghylch rôl y Bwrdd o ran cymeradwyo'r holl bartneriaethau academaidd, yn ogystal â diffiniadau o risg a chynnwys<br>gwybodaeth ariannol wrth gyflwyno cynigion ar gyfer darpar bartneriaethau newydd. Roedd yr esboniadau hyn wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Ansawdd a byddai gweithdrefn wedi'i diweddaru yn cael ei derbyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. | |
| **BG23.87** | **Cofnod camau gweithredu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnod gweithredu Bwrdd y Llywodraethwyr<br><br>**Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Bwrdd y cofnod o gamau gweithredu a oedd yn deillio o gyfarfodydd blaenorol a nododd fod yr holl faterion bellach wedi gau. Mewn perthynas â cham gweithredu ynghylch mesur 'cynnydd dysgu' fel sail ar gyfer adrodd ar gyrhaeddiad a chwblhau (Cyfeiriad yng nghofnod BG23.37) nodwyd y byddai James Dawson (Cyfarwyddwr SPSA) yn cysylltu â Will Naylor y tu allan i'r cyfarfod i drafod ffyrdd posibl o gofnodi.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnod camau gweithredu | |
| **BG23.88** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar faterion yn cynnwys:<br>• Roedd y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudiad (MAC) wedi cyhoeddi adroddiad ei adolygiad o'r Llwybr i Raddedigion. Ar ôl llawer o bryder am ganlyniadau posibl yr adolygiad o fewn y sector, yr argymhelliad oedd cadw'r Llwybr i Raddedigion yn ei le ar ei ffurf bresennol. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn newyddion cadarnhaol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch a recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, nid oedd Llywodraeth y DU wedi ymateb eto ac roedd pryder o hyd na fydd yr argymhelliad yn cael ei dderbyn o bosibl.<br><br>• Roedd trafodaeth o fewn y sector yn parhau i gael ei ddominyddu gan bryder ynghylch sefyllfa ariannol llawer o Sefydliadau Addysg Uwch, gyda nifer o Brifysgolion yn ddiweddar yn cyhoeddi diswyddiadau gorfodol. Awgrymwyd, os a phan oedd Prifysgol yn wynebu methdaliad, efallai y byddai'n ddoeth i Wrecsam ystyried sut y byddai'n dewis ymateb ac yn gosod ei hun o fewn naratif y cyfryngau a'r canlyniadau. Tynnodd yr aelodau sylw hefyd at ddadansoddiad gan PricewaterhouseCoopers a ragwelai y byddai gostyngiad o 20% yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio yn gwthio 80% o Sefydliadau Addysg Uwch y DU i ddiffyg. Er bod Wrecsam mewn sefyllfa ariannol gymharol ffafriol ar hyn o bryd, nodwyd pwysigrwydd gallu edrych ymlaen a gwneud penderfyniadau anodd pan oedd mewn sefyllfa gref.<br><br>• Cynhelir Seremonïau Graddio yn y Brifysgol ar 29ain, 30ain, a 31ain Mai 2024. Byddai nifer o Lywodraethwyr yn mynychu seremonïau yn ogystal â Chinio Cymrodyr er Anrhydedd ar y 30ain.<br><br>• Roedd y Cadeirydd wedi mynychu digwyddiad CUC yn Llundain yn ddiweddar, a oedd yn canolbwyntio ar brofiad y myfyrwyr. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y newid yn y pwysau a wynebir gan fyfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil cynnydd mewn costau byw, gyda'r mwyafrif llethol o fyfyrwyr bellach angen ymgymryd â gwaith cyflogedig ochr yn ochr ag astudiaethau sydd wedi arwain at bwysau amser sy'n anghyson ag astudio yn y Brifysgol. Cyfeiriwyd at erthygl ddiweddar gan WonkHE a oedd wedi tynnu sylw at nifer cynyddol o fyfyrwyr mewn gwaith amser llawn, ochr yn ochr â chyrsiau Prifysgol. Nododd yr aelodau fod y prosiect presgripsiynu cymdeithasol diweddar gan WU wedi gofyn i fyfyrwyr "Beth sy'n bwysig?", a chadarnhaodd y corff o dystiolaeth fewnol mai cyllid oedd y prif bryder i fyfyrwyr Wrecsam hefyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.89** | **Adroddiad Undeb y Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Undeb y Myfyrwyr<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr adroddiad ar weithgarwch diweddar Undeb y Myfyrwyr, gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Penodwyd Marc Caldecott yn Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro tan haf 2025.<br>• Byddai Freya Groom yn dechrau ei thymor fel Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr ym mis Mehefin 2024<br>• Byddai Maisie Head yn dechrau ei thymor fel Llywydd yn gynnar, yn dilyn ymadawiad cynnar Amy Anglesea a oedd wedi ymgymryd â swydd newydd yn ddiweddar. Nodwyd maniffesto Maisie ar gyfer 2024/25.<br>• Roedd yr aelodau'n falch o nodi llwyddiant y timau pêl-rwyd a hoci a oedd wedi cael dyrchafiad yn eu cynghreiriau. Nodwyd pwysigrwydd yr ymgyrch "Fy Nghorff, Fy Newis", yn ogystal â phresenoldeb gweithredol Undeb y Myfyrwyr ar NUS Cymru.<br>• Roedd Gwobrau Undeb y Myfyrwyr 2023/24 wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda dros 130 o bobl yn bresennol. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r flwyddyn wych i gymdeithasau yn Wrecsam, gyda chynnydd iach mewn niferoedd a'r ymgysylltu gan fyfyrwyr.<br><br>Diolchodd y Bwrdd i Lywydd a chydweithwyr Undeb y Myfyrwyr am yr adroddiad, a dymunodd gofnodi ei longyfarchiadau a'i ddymuniadau gorau i Marc, Freya ac Amy wrth iddynt ddechrau ar eu rolau newydd. Nododd yr aelodau ehangder eang gweithgarwch Undeb y Myfyrwyr, a thynnu sylw at y cymysgedd iach o weithgareddau 'hwyliog' a chymdeithasol ochr yn ochr ag ymgyrchoedd mwy difrifol a materion yn ymwneud â chynrychiolaeth.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.90** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor<br><br>**Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan yr Is-Ganghellor a oedd yn tynnu sylw at y materion canlynol:<br><br>• Roedd cyfarfod diweddar o Brifysgolion Cymru wedi rhoi cyfle i gwrdd â Gweinidogion newydd Cymru yn dilyn ethol Vaughn Gething yn Brif Weinidog ac ad-drefnu'r cabinet ar ôl hynny. Dywedwyd bod Lynn Neagle, y Gweinidog Addysg newydd, wedi dangos gwybodaeth drawiadol am y sector a'i heriau.<br><br>• Yn dilyn y drafodaeth flaenorol ar adroddiad adolygiad MAC (Cyfeiriad yng nghofnod BG23.88) nodwyd, yn ogystal â'r argymhelliad i gadw'r Llwybr i Raddedigion, bod yr adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion ar gasglu data'n well am gyrchfannau cyflogaeth graddedigion rhyngwladol, a chryfhau'r gwaith mewn perthynas â'r Fframwaith Ansawdd Asiant.<br><br>• Adroddwyd bod y Brifysgol wedi ysgrifennu at CCAUC ynghylch yr Adolygiad Risg Sefydliadol (IRR), proses ddwywaith y flwyddyn i asesu risg Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a monitro llywodraethu, rheolaeth, cyfeiriad strategol a chynaliadwyedd yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | sector AU Cymru. Roedd CCAUC wedi nodi y byddai sefyllfa IRR holl Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn cael eu hadolygu cyn lansio CTER yn ddiweddarach yn 2024.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.91** | **Penodi Is-Ganghellor a Dirprwy Is-Ganghellor** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar y penodiadau i swyddi uwch:<br><br>• Byddai'r Athro Joe Yates yn ymuno â'r Brifysgol yn swyddogol fel Is-Ganghellor ym mis Awst 2024. Roedd yr Athro Yates eisoes yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Cadeirydd, yr Is-Ganghellor, ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac yn dangos brwdfrydedd a bwriad sylweddol i'r rôl.<br><br>• Cynhaliwyd cyfweliadau terfynol ar gyfer swydd y Dirprwy Is-Ganghellor ar 10 Mai 2024, ar ddiwedd proses hir a gefnogwyd gan Perrett Laver. O blith ymgeiswyr eithriadol o gryf, yr ymgeisydd a argymhellwyd gan y panel oedd Dr Paul Davies. Ar hyn o bryd roedd Dr Davies yn Ddeon Cyfadran ym Mhrifysgol De Cymru ac roedd ei gryfderau wedi creu argraff arbennig ar y panel, gan gynnwys o ran ansawdd academaidd a chefndir ehangu cyfranogiad. Yn unol â'r broses ar gyfer penodi deiliaid swyddi uwch, roedd yn ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo penodiad Dr Davies yn ffurfiol.<br><br>Diolchodd yr aelodau i'r Cadeirydd a phawb a oedd yn ymwneud â recriwtio i'r ddwy swydd, gan nodi cryfder y prosesau ac ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Perrett Laver. Roedd hyder yn y ddau benodiad a theimlai'r aelodau y byddent yn rhoi Wrecsam mewn sefyllfa gref wrth symud ymlaen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO penodiad Dr Paul Davies yn Ddirprwy Is-Ganghellor. NODI'R adroddiad | |
| **BG23.92** | **Dan sylw: Agenda Dinesig a Strategaeth Partneriaeth** | |
| | *Mynychodd Nina Ruddle (Pennaeth Ymgysylltu â Pholisi Cyhoeddus) ar gyfer yr eitem hon*<br><br>**Adroddwyd:**<br>Rhoddodd y Pennaeth Ymgysylltu â Pholisïau Cyhoeddus gyflwyniad a oedd yn arddangos gwaith mewn perthynas â chreu a chyflawni Cenhadaeth Ddinesig y Brifysgol. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at lawer iawn o waith ac ehangder y gweithgarwch, gyda'r prif bwyntiau'n cael eu crynhoi yma:<br><br>• Roedd y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig a Phartneriaeth wedi cael ei chyd-greu yn dilyn ymgysylltu helaeth â phartneriaid a chymunedau, gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, data a gwybodaeth, gan ddangos ymrwymiad i helpu i ddod â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn fyw. Yn y pen draw, nod Cenhadaeth Ddinesig y Brifysgol yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ledled Gogledd Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Yn ogystal â bod yn ganolog i genhadaeth a gwerthoedd Prifysgol Wrecsam, roedd ymgysylltu dinesig yn ffocws allweddol i Lywodraeth Cymru a'r rheoleiddiwr Addysg Uwch newydd, CTER.<br>Roedd y Brifysgol yn canolbwyntio ar sut y gallai wasanaethu ei chymunedau mewn gwirionedd a chysylltu â phobl a lleoedd, drwy fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion y rhanbarth, a gweithio mewn partneriaeth agos i gyflawni canlyniadau.<br>• Y themâu blaenoriaeth a nodwyd yn y Strategaeth oedd:<br>o Arweinyddiaeth, llywodraethu a gweithio drwy'r system gyfan (ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector)<br>o Meithrin cadernid cymunedol<br>o Cadw'n iach<br>• O ran arweinyddiaeth a'r dull gweithio system gyfan, nodwyd bod y Brifysgol yn chwarae rhan flaenllaw fel rhanddeiliad allweddol mewn amrywiaeth o fyrddau strategol, rhwydweithiau a fforymau ar draws y rhanbarth. Roedd y Brifysgol mewn sefyllfa dda i arwain wrth i CTER ganolbwyntio ar ddull rhanbarthol o ymgysylltu dinesig a phartneriaethau, gan helpu i wneud y mwyaf o adnoddau ac effaith ar gymunedau yng Ngogledd Cymru.<br>• Tynnwyd sylw at rai llwyddiannau allweddol, gan gynnwys twf ac effaith Prifysgol y Plant a gweithio mewn partneriaeth â Hyb ACE Cymru er mwyn i Wrecsam allu bod y Brifysgol TrACE (Profiadau Trawma ac Andwyol yn ystod Plentyndod) gyntaf yn y DU.<br><br>Diolchodd y Bwrdd i'r Pennaeth Polisi Cyhoeddus ac Ymgysylltu am amlygu'r amrywiaeth o weithgareddau a oedd o bwys enfawr i'r Brifysgol. Nododd yr aelodau fod y gwaith yn y maes hwn yn hanfodol i safle Wrecsam fel sefydliad angor yng Ngogledd Cymru a bod yn Brifysgol wirioneddol ddinesig, sy'n arwain yn genedlaethol ar yr agenda hon. Yn ystod y drafodaeth, nododd yr aelodau nifer o bwyntiau:<br><br>• Roedd mesur a darparu tystiolaeth o effaith gwaith yn y maes hwn yn hanfodol. Roedd angen DPA cryf er mwyn gallu barnu cynnydd a dangos effaith i randdeiliaid yn allanol. Roedd darnau ansoddol o dystiolaeth fel clipiau fideo ac astudiaethau achos yn bwysig, ochr yn ochr â mesurau mwy meintiol o ganlyniadau.<br><br>• Roedd gwaith yn y maes hwn, gan gynnwys mentrau fel Prifysgol y Plant, yn helpu i ddiogelu'r Brifysgol at y dyfodol drwy ei gwreiddio mewn cymunedau, ymgysylltu â phartneriaid a chenedlaethau'r dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.93** | **Tuag at 2030: Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ar Weledigaeth a Strategaeth y Brifysgol hyd at 2030<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol adroddiad ar gynnydd mewn perthynas â<br>datblygu Gweledigaeth a Strategaeth newydd y Brifysgol hyd at 2030. Adroddwyd y | |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai elfennau o'r weledigaeth a'r strategaeth yn gyhoeddus drwy wefan y Brifysgol, gan gynnwys datganiadau lefel uchel ar genhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a themâu craidd, nodau lefel uchel a chryfderau portffolio academaidd. Ochr yn ochr â'r elfennau cyhoeddus hynny,<br>byddai dogfennau mewnol manylach yn cael eu cynhyrchu i ddarparu sail ar gyfer cynlluniau busnes blynyddol, targedau DPA, a strategaethau diwygiedig ar gyfer cyflawni'r cynllun strategol yn weithredol. Adroddwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â Dangosyddion Perfformiad Allweddol corfforaethol presennol a'u mapio yn erbyn y nodau a'r themâu strategol newydd, gan osod targedau lefel uchel ar gyfer 2024/25. Y bwriad oedd parhau â'r gwaith hwn gyda Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor (VCET) a gynlluniwyd ar gyfer mis Mai 2024.<br><br>Diolchodd y Bwrdd i'r Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol a chydweithwyr yn y Weithrediaeth am arwain y gwaith o ddatblygu'r strategaeth hyd yma. Nodwyd y byddai'r Is-Ganghellor newydd yn ei swydd o fis Awst 2024 ymlaen, ac roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn hanfodol ei fod yn gallu darparu arweinyddiaeth wrth lunio'r strategaeth a'r cynllun gweithredol a oedd yn sail iddi. Bwriad y Bwrdd, y cytunwyd arno'n flaenorol, oedd ystyried a chymeradwyo'r strategaeth derfynol yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, gan fod yr amserlen ar gyfer penodi Is-Ganghellor newydd bellach yn glir, cytunodd yr aelodau y byddai'n ddoeth ailedrych ar y bwriad gwreiddiol hwnnw. Awgrymwyd, er bod ymrwymiadau blaenorol wedi'u gwneud i randdeiliaid ynghylch datblygu a lansio'r strategaeth, y byddai partneriaid allanol yn cefnogi'r rhesymeg dros oedi ychydig er mwyn caniatáu mewnbwn yr Is-Ganghellor newydd. Cytunodd y Bwrdd i ystyried fersiwn nesaf y fframwaith strategol yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, gyda'r bwriad o ddatblygu ymhellach a chymeradwyo'r weledigaeth a'r Strategaeth a'r prosesau cynllunio gweithredol yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2024.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad<br>CYTUNO â'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cymeradwyo | |
| **BG23.98** | **Cynllun Ffioedd a Mynediad 2025-2027** | |
| | *Mynychodd James Dawson, Cyfarwyddwr SPSA, ar gyfer yr eitem hon*<br><br>**Derbyniwyd:**<br>Cynllun Ffioedd a Mynediad 2025-2027<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cyfarwyddwr SPSA gynllun ffioedd a mynediad y Brifysgol ar gyfer 2025-27 a oedd wedi'i ddiweddaru'n flaenorol yn unol â chanllawiau CCAUC ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ehangu Mynediad a Bwrdd Academaidd y Brifysgol. Adroddwyd y byddai amcanion, targedau a lefelau buddsoddi cysylltiedig y Brifysgol mewn camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni yn eu herbyn yn aros yr un fath ar gyfer y blynyddoedd blaenorol. Nodwyd, wrth awdurdodi'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, y gofynnwyd i'r Bwrdd gadarnhau eu bod wedi cytuno i 21 o bwyntiau a nodwyd yn y ddogfen gan CCAUC ynghylch lefelau'r sicrwydd a gafwyd mewn perthynas â'r cynllun.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Cynllun Ffioedd a Mynediad 2025-2027 | |
| **BG23.99** | **Partneriaethau Academaidd** | |

<table>
<tr><td></td><td>Derbyniwyd:<br>Adroddiad diweddaru ar Bartneriaethau Academaidd<br><br>Adroddwyd:<br>Cyflwynodd Deon FSLS adroddiad ar bartneriaethau academaidd, fel yr aelod presennol o'r Pwyllgor Gwaith sy'n goruchwylio'r maes hwn. Wrth gyflwyno’r adroddiad, tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:<ul><li>Roedd timau Partneriaethau a Rhyngwladol wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Ryngwladol a Phartneriaethau ar y cyd ar ffurf drafft erbyn diwedd mis Mehefin 2024, gyda'r nod craidd o sicrhau bod partneriaethau'n cynnig buddion cydfuddiannol sy'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol y Brifysgol.</li><li>Roedd adolygiad o bartneriaethau academaidd presennol ar y gweill a fyddai'n adolygu ansawdd academaidd yn ogystal â sefyllfa ariannol pob partner, gan gynnwys unrhyw ddyled sy'n ddyledus i'r Brifysgol. Nodwyd y byddai VCET yn monitro lefelau risg partneriaethau a pherfformiad yn erbyn meini prawf wrth weithio’n agos gyda’r<br>timau Partneriaethau a Chyllid, a fyddai’n debygol o arwain at derfynu rhai partneriaethau.</li><li>Adroddwyd bod trafodaeth gynnar wedi digwydd gyda thri darpar bartner newydd. Nodwyd bod un sefydliad, Beacon (Tsieina), yn peri risg uchel ar y dechrau ac ni fyddai’n symud ymlaen ymhellach. Byddai dau sefydliad, sef Coleg Busnes Rhydychen ac Eastwood Park Training, yn symud ymlaen i asesiad diwydrwydd dyladwy cyn i’r camau nesaf gael eu hystyried yn unol â’r Weithdrefn Partneriaethau Academaidd.</li><li>Roedd trafodaethau’n cael eu cynnal ynghylch cais am radd-brentisiaeth ar y cyd â Choleg Cambria, a datblygu’r cwricwlwm gyda Grŵp Llandrillo Menai. Roedd y ddau yn bartneriaid presennol ac roedd datblygiadau’n cael eu hystyried fel cydweithio cadarnhaol â phartneriaid rhanbarthol.</li></ul>Penderfynwyd:<br>NODI’R adroddiad</td><td></td></tr>
<tr><td>BG23.100</td><td>Cynllun Gweithredu’r ASA</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Derbyniwyd:<br>Cynllun Gweithredu ar Adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd<br><br>Adroddwyd:<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol Gynllun Gweithredu diweddaraf yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, gan adrodd bod nifer sylweddol o gamau gweithredu yn y cynllun bellach wedi’u cwblhau’n llawn a bod yr holl gamau gweithredu eraill ar y trywydd iawn. Ers y diweddariad diwethaf i’r Bwrdd, roedd dau gam gweithredu wedi’u cwblhau:<ul><li>Adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd Academaidd (adroddiad terfynol wedi’i ystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2024)</li></ul></td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | • Adolygiad allanol ac adroddiad ar ddadansoddiad o ffactorau a gyfrannodd at ganlyniadau Adolygiad yr ASA (a dderbyniwyd ac a nodwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2024).<br><br>Nodwyd bod y cynllun gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio fel ffocws ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfodydd monitro tymhorol gyda CCAUC, a oedd wedi bod yn gadarnhaol. Mewn perthynas â cham gweithredu 12.2 mewn perthynas â phartneriaethau academaidd fel eitem sefydlog ar gyfer y Bwrdd, nodwyd, er bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau, bod swyddogion a llywodraethwyr yn parhau i gydweithio i ddatblygu a mireinio fformat adrodd cyson i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Safonau Ansawdd a Rheoleiddio.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.101** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ar Gampws 2025<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau Campws 2025. Adroddwyd bod cynnydd mawr yn cael ei wneud ar brosiectau ar draws y campws. Cynhaliwyd Gweithdy Strategaeth Caffael Llety i Fyfyrwyr gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth a chwmpasu opsiynau ar gyfer adeiladu a chyllido llety newydd i fyfyrwyr. Roedd y Bwrdd eisoes wedi cymeradwyo cam cyntaf y prosiect a oedd yn cynnwys y cais cynllunio a dylunio, a ariannwyd gan Bartneriaeth Porth Wrecsam. Roedd proses dendro ar waith gyda'r bwriad o ddyfarnu ym mis Medi 2024. Ail gam y broses fyddai dylunio ac adeiladu adeilad newydd, a fyddai'n gofyn am ystyriaeth a chymeradwyaeth bellach yn nes ymlaen. Yn ystod y drafodaeth nododd yr aelodau:<br><br>• Buddsoddwyd £28.1m yn y campws hyd yma o dan brosiect Campws 2025. Camau nesaf y gwaith gan gynnwys yr EEOC, CIA, Cam 2b HEIQ, a'r rhwydwaith ardal leol newydd; nodwyd bod cyllid eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer pob prosiect, a bod pob un yn cael ei ystyried yn fforddiadwy, wedi'i gostio'n llawn ac wedi'i gynnwys ar fantolen y Brifysgol. Roedd hyder y byddai'r cyfan yn cael ei gyflawni yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb.<br>• O ran ail gam y prosiect Llety Myfyrwyr a fyddai'n cynnwys dylunio ac adeiladu adeilad newydd, nodwyd nad oedd gan y Brifysgol y cyllid gofynnol ac nad oedd awydd i adeiladu gan ddefnyddio cronfeydd presennol y Brifysgol neu arian a fenthyciwyd. Adroddwyd bod y Brifysgol yn archwilio'r farchnad a phartneriaid posibl a fyddai'n ariannu'r datblygiad, sy'n ddull y mae'r Bwrdd yn ei gefnogi.<br><br>Diolchodd y Bwrdd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol am yr adroddiad. Nododd yr aelodau swm enfawr ac ehangder y gweithgarwch, a thynnodd sylw at yr arweinyddiaeth ragorol o ran cyflawni cynllun Campws 2025. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad | |
| **BG23.102** | **Rheoli Risg Gorfforaethol** | |
| | *Roedd Joy Morton, Ysgrifennydd y Brifysgol a’r Cwnsler Cyffredinol, yn mynychu ar gyfer yr eitem hon*<br><br>**Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ar Reoli Risg Corfforaethol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Rhoddodd Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Cwnsler Cyffredinol ddiweddariad ar gynnydd o ran adrodd ar reoli risg corfforaethol yn y Brifysgol. Adroddwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried templedi adrodd newydd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, a nododd yr aelodau y byddai Risg bellach yn eitem sefydlog ar agenda holl bwyllgorau'r Brifysgol. Awgrymwyd y byddai’r adroddiadau’n gliriach i bob cynulleidfa petai’r tebygolrwydd, a’r sgôr effaith yn cael eu cynnwys yn y templed.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad | |
| **BG23.103** | **Bwrdd Academaidd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Rhoddodd yr Is-Ganghellor adroddiad llafar ar faterion a oedd yn codi o gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 15 Mai 2024. Adroddwyd:<br><br>• Roedd yr adolygiad effeithiolrwydd o'r Bwrdd Academaidd wedi'i gwblhau, gyda nifer o argymhellion wedi'u gwneud a oedd wrthi'n cael eu hystyried a’u rhoi ar waith.<br><br>• Roedd y Bwrdd Academaidd wedi cymeradwyo Polisi Asesu diwygiedig, a oedd yn cynnwys ymgynghori â staff a myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad | |
| **BG23.104** | **Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad panel adolygu RDAP yr ASA<br><br>**Adroddwyd:**<br>Dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil fod y Brifysgol wedi derbyn yr adroddiad terfynol a oedd yn adlewyrchu canfyddiadau’r tîm a benodwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i graffu ar gais Prifysgol Wrecsam am Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil. Byddai’r adroddiad a’r cais yn cael eu hystyried gan Fwrdd yr ASA ac, os cânt eu cymeradwyo, byddai Llywodraeth Cymru yn cael gwybod, a byddai cymeradwyaeth derfynol yn cael ei cheisio gan y Cyfrin Gyngor. Disgwylid y byddai’r Brifysgol yn derbyn diweddariad ar gynnydd erbyn diwedd Mehefin 2024. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn gadarnhaol, a dywedodd ei fod yn glod mawr i'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil a chydweithwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.105** | **Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid<br><br>**Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a gynhaliwyd ar 26ain Ebrill 2024, gan nodi bod cofnodion llawn y cyfarfod wedi cael eu darparu ar wahân.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.106** | **Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br><br>**Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2024, gan nodi bod y cofnodion llawn wedi cael eu darparu ar wahân.<br>Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol a oedd wedi cael eu hadolygu bob tair blynedd, ac wedi argymell eu cymeradwyo i'r Bwrdd:<br><br>• Trefn Gwyno ar gyfer Deiliaid Swyddi Uwch<br>• Gweithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Deiliaid Swyddi Uwch<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad<br>CYMERADWYO'R Drefn Gwyno wedi'i diweddaru ar gyfer Deiliaid Swyddi Uwch, a'r Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Deiliaid Swyddi Uwch | |
| **BG23.107** | **Pwyllgor Archwilio a Risg** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg<br><br>**Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 21ain Mawrth 2024, gan nodi bod y cofnodion llawn wedi cael eu darparu ar wahân. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG23.108** | **Cofnodion cyfarfodydd Is-gwmnïau** | |
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI cofnodion cyfarfodydd is-gwmnïau a oedd wedi'u darparu ar wahân. | |
| **BG23.109** | **Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2024-25** | |
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor yn 2024/25. | |